OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 1086

# Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007

## RHAN 4

Lwfansau Eraill

**Dewis peidio â derbyn lwfansau o dan Ran 4**

**17.**—(1) Caiff aelod, o anfon hysbysiad ysgrifenedig at swyddog priodol yr awdurdod, ddewis peidio â derbyn yr hyn y mae gan yr aelod hwnnw hawl iddo neu unrhyw ran o lwfansau teithio a chynhaliaeth y mae gan yr aelod hwnnw hawl iddynt.

(2) Caiff aelod cyfetholedig, o anfon hysbysiad ysgrifenedig at swyddog priodol yr awdurdod, ddewis peidio â derbyn yr hyn y mae gan yr aelod cyfetholedig hwnnw hawl iddo neu unrhyw ran o lwfans aelodau cyfetholedig y mae gan yr aelod hwnnw hawl iddo.